

Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 07 Rhagfyr 2004

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch cyflwyno Cardiau Adnabod yng Nghymru, ac a wnaiff ddatgelu natur y trafodaethau hynny. (WAQ40581)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y Mesur Hapchwarae arfaethedig, ac a wnaiff ddatgelu natur y trafodaethau hynny. (WAQ40566)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y Mesur Cymunedau Mwy Diogel arfaethedig, ac a wnaiff ddatgelu natur y trafodaethau hynny. (WAQ40565)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â Changhellor y Trysorlys ynghylch rheolau caffael cyhoeddus yn yr Undeb Ewropeaidd, ac a wnaiff ddatgelu natur y trafodaethau hynny. (WAQ40580)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Prif Weinidog ynghylch cynnal digwyddiadau yng Nghymru mewn perthynas â Llywyddiaeth y DU ar yr UE yn 2005, ac a wnaiff ddatgelu natur y trafodaethau hynny. (WAQ40579)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei drafodaethau gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch Cymorth Rhanbarthol i Gymru ar ôl 2006. (WAQ40578)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff y Prif Weinidog restru unrhyw swyddogaethau y mae'n eu trafod â San Steffan ar hyn o bryd gyda golwg ar eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ40577)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Beth y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â phenodi Cwnsler Cyffredinol, yn sgil y ffaith nad oes penodiad wedi'i wneud hyd yn hyn. (WAQ40563)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a

oes bwriad i benodi Cwnsler Cyffredinol newydd ac, os felly, a wnaiff ddarparu amserlen debygol ar gyfer y broses benodi. (WAQ40564)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa asesiad sydd wedi ei wneud o effaith tagfeydd traffig ar economi Cymru. (WAQ40575)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i ddeuoli'r A40 ar ôl San Clêr. (WAQ40574)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru o hyd i geisio trosglwyddo'r pŵer yn ymwneud â phrosiectau ynni mawr o San Steffan i Lywodraeth y Cynulliad ac, os felly, pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal, a pham y mae'r broses o drosglwyddo'r pŵerau wedi cymryd cymaint o amser. (WAQ40568)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Faint o bobl a laddwyd mewn damweiniau beiciau modur yng Nghymru ym mhob blwyddyn ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei sefydlu, fesul ardal. (WAQ40570)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Faint o ddamweiniau beiciau modur sydd wedi digwydd yng Nghymru ym mhob blwyddyn ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu, fesul ardal. (WAQ40569)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i greu swyddi yn Knighton. (WAQ40585)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Sut y mae polisïau'r Gweinidog yn helpu busnesau yn Nhrefyclo i ehangu. (WAQ40584)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r WDA ar ddatblygu economaidd yn Nhrefyclo. (WAQ40583)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chyngor y Dref ar y sefyllfa yn Nhrefyclo o ran swyddi. (WAQ40582)

Sandy Mewies (Delyn); Yn ystod 2004, faint o arian y mae'r Cynulliad wedi'i fuddsoddi mewn busnesau yn Sir y Fflint, faint o arian preifat y gwnaeth hwn ei ddenu, a faint o swyddi a grewyd neu a ddiogelwyd yn sgil y buddsoddiad. (WAQ40488)

Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ynghylch cyflwyno ffioedd

ychwanegol yng Nghymru, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau. (WAQ40573)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau â sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ar yr ansicrwydd o ran ariannu ac effaith yr ansicrwydd ar niferoedd y myfyrwyr a phrosiectau ymchwil yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru, ac os cafodd, a wnaiff roi manylion y trafodaethau. (WAQ40572)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Paham y teimlir ei bod yn briodol i'r Cynulliad ddileu'r rheidrwydd sydd ar gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru i ddarparu adroddiad blynyddol a chynnal cyfarfod rhieni blynyddol. (WAQ40586)

Michael German (Dwyrain De Cymru): A yw'r Gweinidog yn bwriadu ymestyn cwmpas Archwiliadau Estyn i gynnwys prydau ysgolion a bwyta'n iach fel y cyhoeddwyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar gyfer Lloegr yn ddiweddar. (WAQ40590)

Owen John Thomas (Canol De Cymru): Pa drefniadau ariannu sydd yn eu lle ar gyfer dysgwyr awtistig mewn addysg ar ôl 16 oed. (WAQ40591)

Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa fesurau sydd yn eu lle i atal yr Afon Rheiddiol, yr Afon Wysg a'r Afon Gwy rhag gorlifo. (WAQ40571)

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch cynlluniau i ostwng nifer y Crwneriaid yng Nghymru, os cafodd, a wnaiff roi manylion y trafodaethau, ac os na chafodd, a wnaiff drafod y mater â Gweinidogion y Cabinet yn San Steffan. (WAQ40567)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i helpu a chefnogi'r rhai sy'n dioddef o Syndrom Asperger yng Nghymru. (WAQ40587)

Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o ganabis ac ecstasi ymysg pobl yn eu harddegau yng Nghymru. (WAQ40576)

Gofyn i Gynrychiolydd Pwyllgor y Ty

Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy): Ers ei gyflwyno, faint o ysgolion o'r Gogledd sydd wedi cael cymorth ar gyfer teithio i ymweld â'r Cynulliad a sut y mae hyn y cymharu ag ysgolion y rhanbarthau eraill. (WAQ40589)

